Adran Cymunedau

Beth yw Ailalluogi?

Ffeithlen 24

(Medi 2024)

Rhaglen o asesiadau a therapïau yw ailalluogi sy'n caniatáu i bobl adennill eu sgiliau a'u hannibyniaeth, cyhyd â bo modd, ac i gael cymorth priodol â'u hanghenion bob dydd.

Cymorth tymor byr yw'r gwasanaeth ac mae ar gael i unrhyw oedolyn sydd fel rheol yn byw gartre'n annibynnol ac sydd, am resymau amrywiol, wedi colli'r gallu corfforol neu'r hyder i wneud tasgau beunyddiol. Fodd bynnag, er mwyn defnyddio'r gwasanaeth ailalluogi mae'n rhaid i chi gael asesiad.

Sut mae defnyddio'r gwasanaeth ailalluogi ac ar gyfer pwy mae e?

Os ydych yn teimlo bod eich angen cymorth, y cam cyntaf yw gofyn inni asesu'r anghenion hynny. Mae gan bawb sy'n ymddangos fel petai ganddynt anghenion gofal a chymorth yr hawl i gael eu hanghenion wedi'u hasesu a gellir darparu gwasanaeth os ydych yn bodloni'r meini prawf. I gael asesiad mae angen ichi gysylltu â'n Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth drwy ffonio **0300 333 2222**.

Pan fyddwch yn cael eich cyfeirio at ein gwasanaeth, bydd gweithiwr cymdeithasol, therapydd, neu uwch oruchwyliwr yn gwrando ar yr hyn sy'n bwysig i chi er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o'ch cefnogi chi yn y gymuned.

Yn gyffredinol, mae pobl sy'n cael budd o Ailalluogi:

- Yn awyddus i ddychwelyd adre neu i barhau i fyw gartref
- Angen cymorth a/neu offer i adennill neu wella eu sgiliau beunyddiol
- Â'r gallu i wella sgiliau beunyddiol yn dilyn cyfnod byr ond dwys o gymorth
- Yn feddygol sefydlog a heb anghenion nyrsio na all nyrs gymunedol (ardal) eu diwallu
- Wedi cael damwain, cyfnod o salwch neu arhosiad mewn ysbyty

Bydd y Gwasanaeth Ailalluogi yn rhoi cymorth dwys i chi sydd wedi'i gynllunio i'ch helpu i adennill eich annibyniaeth. Byddwn yn trafod eich amcanion â chi ac yn llunio cynllun o ran sut y gallwn eich cefnogi chi i gwrdd â nhw. Rydym yn adolygu'n barhaus i weld eich bod yn ymdopi, ac yn addasu'r gefnogaeth a gewch i gwrdd â'ch amcanion unigol.

Gall eich rhaglen ailalluogi bara hyd at chwe wythnos, gan ddibynnu ar yr asesiad parhaus o'ch anghenion – mewn rhai achosion bydd pobl yn annibynnol eto ar ôl tair neu bedair wythnos.

Mae gan y Gwasanaeth Ailalluogi dimau o staff proffesiynol a chyfeillgar ledled Sir Gaerfyrddin a fydd yn gwrando arnoch, yn parchu eich barn a'ch safonau personol ac yn eich cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl ym mhob gweithgaredd beunyddiol fel y gallwch fyw'n annibynnol yn eich cartref eich hun. Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eich bod yn gweithio gyda'r un staff drwy gydol eich rhaglen ailalluogi.

Nod y Gwasanaeth Ailalluogi yw:

- Gwella ansawdd eich bywyd
- Eich helpu i gynnal neu gymryd rheolaeth dros eich bywyd, cyhyd ag y gallwch
- Eich helpu i wella ar ôl argyfwng neu ddirywiad yn eich iechyd, er enghraifft ar ôl arhosiad yn yr ysbyty
- Rhoi cymorth ymarferol ichi yn eich cartref eich hun fel y gallwch adennill a chynyddu eich hyder i wneud tasgau eich hunan
- Eich cynorthwyo i wneud tasgau bob dydd drwy eich helpu i adennill sgiliau beunyddiol
- Eich galluogi i fyw'n annibynnol yn eich cartref eich hun cyhyd ag y gallwch
- Hybu eich dewisiadau a meithrin eich cryfderau fel bod angen llai o ofal a chymorth parhaus arnoch
- Darparu gofal seibiant a chymorth i ofalwyr
- Cydweithio â meddyg teulu, gofalwr, asiantaethau gwirfoddol ac eraill yn y gymuned
- Darparu gwybodaeth dda am eich gwasanaeth
- Rhoi gofal cyson

Gallwch ddisgwyl y canlynol:

- Cael eich trin ag urddas, parch a chwrteisi
- Gwneud dewisiadau gwybodus am eich bywyd yn y cartref ac yn y gymuned
- Gallu gwneud cwyn a chael pobl i wrando arnoch
- Diogelu eich preifatrwydd

- Derbyn gwybodaeth dda
- Cael gwasanaeth personol a chyfrinachol da gyda chyswllt a monitro rheolaidd
- Cael cymorth gan staff sydd wedi eu hyfforddi'n dda ac sy'n cydymffurfio â Chôd Ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru

Efallai y bydd gwasanaethau eraill yn cael eu darparu os ydych chi a'ch gweithiwr cymdeithasol yn credu bod eu hangen.

Beth allaf ei ddisgwyl fel rhan o'r gwasanaeth ailalluogi?

Yn dilyn asesiad cymesur, bydd staff ailalluogi ymweld â chi ond yn dibynnu ar nifer y galwadau yr aseswyd bod eu hangen arnoch. Bydd y tîm ailalluogi yn gweithio gyda chi i'ch helpu i gynnal neu adennill eich sgiliau beunyddiol megis golchi a gwisgo, mynd o amgylch eich cartref – y tu mewn a thu fas, paratoi a chynllunio prydau, gorchwylion yn y cartref ac ymuno â gweithgareddau cymdeithasol. Hefyd, gallai'r tîm ddarparu rhaglen ymarfer sydd wedi'i theilwra'n benodol i fynd i'r afael â'ch anghenion unigol. Mae'r gwasanaeth hwn fel arfer yn para nes y gallwch reoli eich hun. Bydd y gwasanaeth am uchafswm o 6 wythnos.

Oes rhaid imi dalu a faint fydd y gost?

Nid oes tâl am y gwasanaeth gwella ond bydd eich angen am y gwasanaeth yn cael ei adolygu i sicrhau eich bod yn manteisio i’r eithaf ar y gwasanaeth cyn ichi ei adael. Fel y nodir uchod, mae'r cyfnod ailalluogi yn gallu para hyd at chwe wythnos. Codir tâl arnoch o'r dyddiad pryd y penderfynir drwy asesiad eich bod wedi cyflawni eich amcanion ac nad oes angen ailalluogi arnoch mwyach. Hefyd os penderfynir drwy asesiad, yn ystod y cyfnod chwe wythnos, nad ydych yn gallu cyflawni eich amcanion neu eich bod wedi gwneud cymaint o gynnydd tuag at yr amcanion hynny â phosibl, codir tâl arnoch o'r pwynt hwnnw ymlaen. Os nad ydych yn cyflawni eich amcanion yn ystod y cyfnod o chwe wythnos a bod eich gwasanaeth yn para'n hirach na chwe wythnos, codir tâl arnoch. Fodd bynnag, os yw hyn yn edrych yn debygol, bydd gweithiwr cymdeithasol yn siarad â chi yn ei gylch cyn i'r chwe wythnos ddod i ben.

Beth sy’n digwydd os nad wyf yn gallu cyflawni fy amcanion o fewn chwe wythnos?

Byddwn yn asesu eich gallu i gyflawni eich amcanion drwy gydol y cyfnod ailalluogi. Weithiau, ni fydd pobl yn gallu bod mor annibynnol ag oeddent ynghynt, er eu bod wedi derbyn gwasanaeth ailalluogi. Os bernir drwy asesiad fod gennych anghenion gofal a chymorth cymwys, bydd yr awdurdod lleol yn rhoi'r gofal a'r cymorth angenrheidiol i chi.

Os hoffech gael y daflen hon mewn print bras, Braille neu ar dâp sain, ffoniwch ☎ 01267 228703